


Coeden  
Ddarllen  
Rhydychen

# Y Gorau yn y Lle



Roderick Hunt  
Alex Brychta





Daeth Anneena draw i chwarae gyda Cad a Dids.  
Daeth Wilff a Wilma hefyd, a daeth Nadim.

“Rwy’n chwech yr wythnos nesaf,” meddai Onw wrthyn  
nhw. “Ydych chi am ddod i fy mharti pen-blwydd?”

“Chwech? Rwy’t yn fy nal i,” meddai Wilma.





Aeth Mam ag Onw i'r siopau. Pan oedd e wedi mynd, cafodd Wilma syniad.

“Dewch inni greu band. Yna gallwn chwarae Pen-blwydd Hapus i Onw.”

“Ond mae ei ben-blwydd yr wythnos nesaf,” meddai Nadim.

“Byddwn angen yr amser ymarfer,” meddai Wilma.




Roedd Cad yn hoffi'r syniad o ffurfio band. Doedd y bechgyn ddim mor siŵr.

“Fedrwn ni ddim chwarae offerynnau,” meddai Wilff.

“Cei di a Dids chwarae'r casŵ,” meddai Cad. “Gall Nadim chwarae'r tambwrîn.”

“A gallwn ni i gyd ganu,” meddai Anneena.





O'r diwedd roedden nhw'n barod i chwarae. Rhoddodd  
Wilma gychwyn iddyn nhw. "Un...dau...tri," meddai hi.  
Dechreuon nhw chwarae Pen-blwydd Hapus.  
Roedd yn swnio'n eithaf da. Roedd yn swnio hyd yn  
oed yn well pan chwaraeon nhw hi eto.  
Yn sydyn dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.



Aeth yr hud â'r plant ar antur arall.  
"Help!" galwodd Anneena. "Mae ein hofferynnau gyda  
ni o hyd."  
"Rwy'n gobeithio na fydd fy ngitâr i'n torri," meddai  
Wilma.





Aeth yr hud â'r plant yn ôl mewn amser. Aeth â nhw i'r Oesoedd Canol.

“Pwy yw'r bobl yna?” gofynnodd Nadim. “Pam maen nhw'n gwneud triciau?”

“Rhaid mai diddanwyr ydyn nhw,” meddai Anneena. “Rwy'n credu eu bod yn ymarfer.”

Ar y dechrau welodd y diddanwyr mo'r plant. Aethon nhw ymlaen i ymarfer.

Roedd y jygwr yn gadael i'r peli ddisgyn drwy'r amser. Roedd y ferch ar y stwmps yn gafael yn y goeden.

“Os mai diddanwyr ydyn nhw, dydyn nhw ddim yn dda iawn,” meddai Cad. “Dim rhyfedd eu bod yn ymarfer.”





Gwelodd un o'r diddanwyr y plant. Rhedodd draw atyn nhw.

"Siôn yw fy enw i," meddai. "Rhaid mai chi yw'r cerddorion."

"Nid cerddorion iawn ydyn ni," meddai Wilma.

"Mae gen i waith i chi," meddai'r dyn.

"Ond... ond...," meddai Cad.



Edrychodd y dyn ar gitâr Wilma.


"Dyma offeryn rhyfedd," meddai.

Edrychodd y ferch ar recorder Cad.

"Dyma bib ryfedd," meddai.

"Rydych chi'n edrych braidd yn ifanc i fod yn gerddorion," meddai Siôn. "Gwell ichi chwarae tŷn i ni."





Yn sydyn daeth dyn ar gefn ceffyl atyn nhw. Roedd golwg flin iawn arno fe.

“Ai chi yw’r diddanwyr?” gwaeddodd. “Dylech chi fod yn y castell erbyn hyn.”

“Roedd y cerddorion yn hwyr,” meddai Siôn. “Ond rydyn ni’n barod nawr.”

“Brysiwch ’te,” meddai’r dyn. “Mae’n gas gan y Dug orfod aros.”

Syllodd ar y plant.

“Ai dyma’r cerddorion?” gofynnodd. “Maen nhw’n edrych yn ifanc iawn.”

“Rhain yw’r gorau yn y lle,” meddai Siôn.

“Ond... ond...,” meddai Wilma.





Gwnaeth y dyn i bawb fynd i'r castell. Rhedodd y plant y tu ôl i bawb arall.

“Sut medrwn ni ddiddanu'r Dug?” meddai Cad.

“Dydyn ni ddim yn gerddorion iawn.”

“Peidiwch â phoeni,” meddai Siôn. “Mentraf fi eich bod yn gallu chwarae rhywbeth. Mae offerynnau gennych chi i gyd.”

“Dim ond un gân rydyn ni'n gallu chwarae,” meddai Nadim. “Pen-blwydd Hapus yw ei henw. Rydych chi ond yn ei chwarae ar ben-blwydd rhywun.”

“Chlywais i ddim am honna,” meddai Siôn, “ond mae'n swnio'n berffaith. Pen-blwydd y Dug yw e. Dyna pam rydyn ni'n mynd i'w ddiddanu.”





Roedd y Dug yn aros gyda'i wraig a'i ferch. Edrychon  
nhw ar y diddanwyr.

Ymgrymodd y diddanwyr yn isel.

Roedd golwg syfrdan ar ferch y Dug.

“Mae'n well i ni ymgrymu hefyd,” sibrydodd Wilff.

“Dydyn ni ddim yn cwrdd â dug bob dydd.”

Syllodd y Dug ar y plant.

“Mae'r cerddorion yn ifanc iawn,” meddai.

“Rhain yw'r gorau yn y lle,” meddai Siôn.

“Mae'n well iddyn nhw fod,” meddai'r Dug. “Rwy'n hoff  
iawn o gerddoriaeth.”

“Maen nhw wedi creu cân i chi,” meddai Siôn.





Aeth y diddanwyr i ymarfer. Roedden nhw'n dal heb wella.

“Maen nhw'n ofnadwy,” meddai Nadim. “Dydw i ddim yn credu eu bod yn ddiddanwyr iawn. Mae rhywbeth rhyfedd yn digwydd.”

“Gwylwch eich hun, dyma ferch y Dug,” meddai Wilff.

Rhedodd merch y Dug at un o'r diddanwyr. Cofleidiodd e.

“O Huw! Rwy mor falch dy fod ti yma,” meddai.

“Dywedais y byddwn i'n llwyddo i ddod,” meddai Huw.

“Dyna chi!” meddai Nadim. “Dywedais i fod rhywbeth rhyfedd yn digwydd.”






Elain oedd enw merch y Dug. Roedd hi a Huw mewn cariad.

“Nid diddanwyr ydyn ni yn wir,” meddai Siôn. “Rydyn ni yma i helpu Elain.”

“Dyw fy nhad ddim yn fodlon i fi briodi eto,” meddai Elain, “felly rydyn ni am redeg i ffwrdd.”



“Pam esgus mai diddanwyr ydych chi,” meddai Dids, “a chithau mor wael yn ei wneud?”

“Hon oedd yr unig ffordd y gallem ni ddod i mewn i'r castell,” meddai Huw.

“Plis helpwch ni,” meddai Siôn.

“O, o'r gorau,” meddai Anneena.





Rhoddodd Huw botel o foddion cysgu i Elain.

“Arllwysa hwn i’r gwin,” meddai. “Gwna hyn cyn i’r wledd ddechrau heno.”

“Bydd yn gwneud i bawb gysgu,” meddai Siôn. “Yna gallwn ni ddianc yn ddiogel.”

Cymerodd Elain y botel. “Gad hyn i fi,” meddai.



Gwnaeth y diddanwyr i’r plant wisgo fel cerddorion.

“Rwy’n teimlo’n wirion, wedi gwisgo fel hyn,” cwynodd


Dids.

“Mae angen iti edrych yn iawn,” meddai Siôn.

“Fydd pawb ddim yn cysgu?” gofynnodd Anneena.

“Gobeithio y byddan nhw,” meddai Siôn.





Roedd yn amser i wledd y Dug. Roedd llawer o bobl yno.

Aeth y gweision â dysglau mawr o fwyd i mewn. Roedd digon o win i bawb ei yfed.

Roedd Elain yn gofidio. Roedd hi wedi rhoi'r moddion cysgu yn y gwin ond doedd neb wedi syrthio i gysgu.

Nawr roedd yn bryd i'r adloniant ddechrau.

“Dyw hyn ddim yn rhan o'm cynllun i,” hisiodd Siôn. “Pam nad oes neb wedi syrthio i gysgu?”

“Dyw'r moddion ddim yn gweithio,” meddai Dids.

“Beth wnawn ni nawr?” gofynnodd Huw.

“Bydd yn rhaid inni eu diddanu nhw,” meddai Siôn.






Roedd y diddanwyr yn ofnadwy. Dechreuodd pawb floeddio a thaflu bwyd atyn nhw. Roedd y Dug yn flin.

“Diddanwyr?” gwaeddodd. “Rydych chi’n ofnadwy. Rwy’n mynd i’ch rhoi chi yn y dwnsiwn.”

“Arhoswch!” ymbiliodd Siôn. “Plis wnewch chi wrando ar y cerddorion. Nhw yw’r gorau yn y lle.”



Paratôdd y plant i chwarae. Rhoddodd Wilma gychwyn iddyn nhw.

“Un...dau...tri,” meddai hi.

Dechreuon nhw chwarae Pen-blwydd Hapus.

Roedd yn swnio’n eitha da. Roedd yn swnio hyd yn oed yn well pan chwaraeon nhw hi eto.

Clapiodd y bobl a bloeddio hwrê.





“Ardderchog,” meddai’r Dug. “Chwaraewch hi eto.”  
Cafodd Wilma syniad. Sibrydodd yng nghlust Huw.  
“Gwell iti gripian allan nawr a mynd ag Elain hefyd.”  
Yna clapiodd hi ei dwylo.  
“Y tro hyn rydw i’n mynd i ddysgu’r geiriau ichi,”  
meddai. “Gall pob un ohonoch chi ymuno.”



Dysgodd Wilma eiriau Pen-blwydd Hapus i bawb.  
Sleifiodd Elain oddi yno. Welodd neb mohoni yn mynd.  
Roedd pawb yn canu’n uchel.  
“Chi yw’r gorau yn y lle,” meddai’r Dug. “Pa donau  
eraill medrwch chi eu chwarae?”






Dihangodd Huw ac Elain o'r castell. Roedd ceffylau yn aros amdanynt.

“Yfory fe gawn ni briodi,” meddai Huw. “Wyt ti'n meddwl y cei di fendith dy dad?”

“Wrth gwrs y caf fi,” meddai Elain, “wedi iddo weld mor hapus ydyn ni.”




“Mae'r nodyn hwn oddi wrth Elain,” meddai'r Dug.  
“Mae hi wedi dianc er mwyn priodi. Mae'n debyg y dylem ni redeg ar ei hôl hi.”


Yn sydyn dyma'r Dug yn dylyfu gên.

“Rwy'n teimlo'n gysglyd iawn,” meddai. “Efallai yr af fi ar ei hôl ar ôl cael hoe fach.”





“Mae pawb yn cysgu,” meddai Wilma. “Felly gweithiodd y moddion cwsg yn y diwedd.”  
Dechreuodd yr allwedd hud ddisgleirio.  
“Dyma ddiwedd rhyfedd i’r antur,” meddai Dids.  
“Does neb ar ddihun i ni ddweud hwyl fawr wrthyn nhw.”  
Aeth yr hud â nhw adref.



“Does dim angen inni ymarfer Pen-blwydd Hapus eto,” meddai Nadim. “Rydyn ni’n eitha da erbyn hyn.”  
Yna daeth Onw i mewn.  
“Beth ydych chi i gyd wedi bod yn gwneud?”  
gofynnodd.  
“Dim ond chwarae o gwmpas,” meddai Cad.





Roedd yn chweched pen-blwydd Onw. Chwaraeodd y band Pen-blwydd Hapus.

“Roedd hynny’n ardderchog,” meddai Onw. “Doeddwn i ddim yn gwybod eich bod cystal cerddorion.”


“Wrth gwrs ein bod ni,” meddai Wilma. “Ni yw’r gorau yn y lle.”





# Y Gorau yn y Lle

Mae ffurfio band yn hwyl. Ond mewn antur hud, mae'r band yn cyfarfod â diddanwyr teithiol sydd ddim yr hyn maen nhw'n ymddangos.



Cam 9 Rhagor o Storiâu A  
Trefn ddarllen a argymhellir:

Y Llygad Glas

Achub!

Antur yn yr Iseldiroedd

Y Gorau yn y Lle

Y Peiriant Hedfan

Trafferth gydag Allwedd

Addasiad Cymraeg gan  
Juli Paschalis

